**CABINET - DYDD MAWRTH, 21 TACHWEDD 2023**

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 21 TACHWEDD 2023 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| W R Goode | J Gebbie | HM Williams | JPD Blundell |

Presennol – O Bell

| | |
|---|---|
| JC Spanswick | N Farr |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kate Pask | Swyddog Gwella Corfforaethol - Perfformiad |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim

## 252. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cymeradwyo cofnodion 17/10/23 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

## 253. Cod Llywodraethu Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bu’r Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo’r diwygiadau i’r Cod Llywodraethu Corfforaethol fel y’u heglurwyd yn atodiad A.<br><br>Wrth gymeradwyo’r diwygiadau i’r Cod, nododd yr aelodau:<br><br>• Pwysigrwydd y gwaith hwn i reolaeth y Cyngor.<br>• Y llwybrau oedd ar gael pe tybid bod yr egwyddorion craidd wedi cael eu torri.<br>• Cyfraniad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddatblygiad y Cod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

## 254. Cynllun Prydlesu Sector Rhentu Preifat

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>• Nodi’r diweddariad ynglŷn â diwedd trefniadau cynllun prydlesu’r sector preifat presennol gyda Chartrefi Hafod.<br>• Cymeradwyo gweithredu Cynllun Prydlesu Cymru yn seiliedig ar nifer yr adeiladau oedd i'w cynnwys yn y cynllun fel yr amlinellir ym mharagraff 3.9.<br>• Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Partneriaeth a Pherfformiad mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i unrhyw gytundebau ariannu a/neu unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r cynllun a chymeradwyo unrhyw fân newidiadau i'r cynllun yn y dyfodol, sydd o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt.<br><br>Wrth gymeradwyo’r argymhellion, gwnaeth yr Aelodau’r canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Diolch i Gartrefi Hafod am eu gwaith, ac i'r Wallich am gamu i'r adwy wrth i'r trefniadau presennol gael eu datgomisiynu.<br>• Nodi'r pwysau cyllidebol ar sefydliadau yn y maes gwaith hwn.<br>• Gofyn am ragor o wybodaeth am y Lwfans Tai Lleol, yn enwedig a oedd yn cynyddu yn unol â chwyddiant. Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y câi'r lwfans ei adolygu'n flynyddol, ac yr anfonid mwy o wybodaeth at yr Aelodau am gyfradd y cynnydd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**255. Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau a amlinellir ym mharagraffau 3.1 a 3.4. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**256. Diweddariad Caffael Prosiect Pafiliwn y Grand Porthcawl**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>• Nodi'r cynnydd a wnaed o ran dyluniad y prosiect.<br>• Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol a'r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid, symud ymlaen â'r gwahoddiad i dendro am y gwaith adeiladu ar ôl cwblhau'r broses ddylunio.<br>• Nodi y daw adroddiad yn y dyfodol i'r Cabinet ac i'r hefyd Cyngor maes o law er mwyn nodi goblygiadau ariannol y prosiect, cyn ymrwymo i gontract adeiladu ar gyfer prosiect y Pafiliwn Mawr.<br><br>Wrth gymeradwyo'r argymhellion, bu'r Aelodau'n trafod y materion a ganlyn:<br><br>• Pwysigrwydd rheoli risg ac amserlenni.<br>• Rhoi'r llwybr caffael mwyaf priodol ar waith yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r awdurdod. |

| | |
|---|---|
| | • Nodi'r holl ffynonellau cyllid posibl i gwblhau'r prosiect.<br>• Bod y prosiect wedi ei gynnwys ym Mlaenraglen Waith Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**257. Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) 4 ac Awdurdod Lleol (ALI) Datganiad ar y Cyd o Fwriad a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>• Cytuno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddod yn aelod o ECO4 Flex ac mai Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau fyddai'r person penodedig cyfrifol am Gynllun ECO4 Flex.<br>• Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol a'r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid, i wneud unrhyw newidiadau gofynnol ac i gytuno ar y fersiynau terfynol o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r Cyd-ddatganiad o Fwriad drafft.<br>• Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol a gymeradwywyd ac i lofnodi a chyhoeddi'r Cyd-ddatganiad o Fwriad terfynol a gymeradwywyd, ac wedi hynny diweddaru'r dogfennau hyn gydag unrhyw ddiweddariadau ffeithiol fel y bo'n briodol.<br>• Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau dderbyn cynnig o £16,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu ECO4 Flex yn unol â'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys yn adran 8.<br><br>Wrth gymeradwyo'r argymhellion, gwnaeth yr Aelodau y canlynol:<br><br>• Mynegi pryder ynghylch y costau posibl o weinyddu'r broses gymhwyso, ac a fyddai'r cynnig o £16,000 o gyllid a £300 yr ymgeisydd yn ddigon i dalu'r holl gostau.<br>• Nodwyd na allai meddygon teulu, er eu bod yn gallu chwarae rhan mewn canfod anghenion o ganlyniad i ddiagnosis cyflyrau iechyd, fod yn gysylltiedig â gwerthuso cymhwyster ar sail incwm.<br>• Mynegodd y Dirprwy Arweinydd bryder ynghylch y ffordd yr hyrwyddwyd y cynllun hwn ymhlith cydweithwyr yn y GIG ac a fyddent yn cyfeirio buddiolwyr posibl at y Cyngor.<br>• Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, er bod y Cabinet rhanbarthol wedi cytuno ar y meini prawf |

| | |
|---|---|
| | cymhwyster, ei bod yn teimlo y byddai'n bwysig eu hadolygu ar ryw adeg. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**258. Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>• Cytuno bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gymryd rôl 'Awdurdod Lleol Arweiniol' ar gyfer Cytundeb Lefel Gwasanaeth Rhanbarthol Pobl a Sgiliau Cronfa Ffyniant ar y Cyd Llywodraeth y DU (Atodiad 1).<br>• Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol a'r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid i ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth Pobl a Sgiliau Rhanbarthol Cronfa Ffyniant ar y Cyd Llywodraeth y DU, ac unrhyw ddiwygiadau neu estyniadau dilynol iddo fel y cytunwyd gan Fwrdd Rheoli Strategol Rhanbarthol Pobl a Sgiliau Cronfa Ffyniant ar y Cyd Llywodraeth y DU ac ymrwymo i unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r cytundeb.<br>• Cytuno i benodi Rheolwr Cyflogadwyedd a Mentergarwch i gynrychioli CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar Fwrdd Rheoli Strategol Rhanbarthol Pobl a Sgiliau Cronfa Ffyniant a Rennir Llywodraeth y DU.<br><br>Wrth gymeradwyo'r argymhellion, fe wnaeth yr Aelodau'r canlynol:<br><br>• Mynegi pryder y gallai'r gwasanaeth Cyflogadwyedd lleol gwerthfawr gael ei beryglu gan y fenter gydweithio ranbarthol hon, a bod angen i unrhyw ddatblygiadau rhanbarthol gydredeg yn ddi-dor â'r hyn a ddarperir yn y Fwrdeistref Sirol.<br>• Gofyn am eglurhad mai dyma'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o ddarparu rhai gwasanaethau. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau hyn.<br>• Dweud bod allgymorth yn rhan bwysig o gyflawni. Roedd angen hyrwyddo mentrau mewn cymunedau ac ar-lein.<br>• Bod angen hysbysu'r holl Aelodau am y datblygiad hwn. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

## 259. Canlyniad yr Ymgynghoriad ar Gau Canolfannau Ailgylchu Cymunedol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>• Nodi canlyniadau'r ymgynghoriad ar gynigion i gau pob CAC un diwrnod yr wythnos.<br>• Wedi cymeradwyo parhau i symud ymlaen gyda chau pob safle un diwrnod yr wythnos.<br>• Awdurdodi Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i gysylltu â'r contractwyr gwastraff presennol a'r rhai sy'n dod i mewn i gau'r safleoedd CAC un diwrnod yr wythnos.<br><br>Wrth nodi'r argymhellion, fe wnaeth yr Aelodau'r canlynol:<br><br>• Trafod rôl ymgyngoriadau wrth benderfynu ar doriadau cyllidebol.<br>• Nodi na ddylid cynnwys cam-drin mewn dogfennau cyhoeddus, ac y dylid tynnu'r cyfeiriadau ato allan o'r adroddiad.<br>• Nodi bod Canolfan Ailgylchu Cymunedol y Pîl yn disgwyl am ei thrwydded gweithredu. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

## 260. Polisïau Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol A Llesiant – Derbyn a chychwyn Polisïau Gwasanaeth A Gwrth-Fwlio

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Ystyriodd a chymeradwyodd y Cabinet bolisïau newydd Derbyniadau a Chychwyn Gwasanaeth yn Atodiad 1 a Gwrth-fwlio mewn Gwasanaethau Gofal Preswyl i Blant yn Atodiad 2.<br><br>Wrth gymeradwyo'r polisïau, nododd yr Aelodau:<br><br>• Bod y polisïau wedi eu datblygu o ganlyniad i hysbysiadau gweithredu blaenoriaeth.<br>• Y dylid darparu dolen yn y Polisi Derbyniadau a Chychwyn Gwasanaeth i amlygu'r gweithdrefnau diogelu ariannol sy'n bodoli ar gyfer pob gwasanaeth.<br>• Bod bwlio yn ymddygiad erchyll i'w brofi, a bod ein pobl ifanc eisoes yn y sefyllfa o fod yn eithriadol o agored i niwed. Roedd yn hanfodol gwneud popeth posibl i'w cefnogi. |

| | |
|---|---|
| | • Y dylid dileu'r ymadrodd "merched gan amlaf" o Adran 8.3 (Bwlïod Perthynol) o'r Polisi Gwrth-Fwlio.<br>• Y byddai hyfforddiant priodol, yn enwedig mewn chwarae rôl, yn cael ei ddarparu. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**261. Adroddiad Blynyddol Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet yr Adroddiad Blynyddol ar sylwadau a chwynion y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm fel Atodiad 1.<br><br>Wrth gymeradwyo'r adroddiad, nododd yr Aelodau:<br><br>• Bod mwy o ganmoliaeth nag o gwynion.<br>• Y byddai'n werthfawr gweld dadansoddiad o'r ganmoliaeth a'r cwynion ym maes gofal cymdeithasol oedolion.<br>• Pwysigrwydd hanfodol gweithlu sefydlog i gyflawni gwasanaethau. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**262. Adolygu Polisi Diogelu Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Diogelu Corfforaethol wedi ei ddiweddaru yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.<br><br>Wrth gymeradwyo'r adroddiad, nododd yr Aelodau:<br><br>• Bod diogelu yn cwmpasu nid yn unig y risg a berir i blant, nac yn wir i oedolion agored i niwed, ond ei fod yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, radicaleiddio, anffurfio organau cenhedlu benywod, a phob math o bethau na fyddem yn disgwyl eu gweld o gwbl.<br>• Bod staff y Cyngor yn allweddol wrth canfod, yn amlach na pheidio, unrhyw fasnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth sy'n digwydd. |

| | |
|---|---|
| | • Bod yna lawer o ferched, ac yn wir dynion allan yna, sydd mewn perygl o bob math o gamdriniaeth oddi wrth bartneriaid ac aelodau o'r teulu, a bod angen inni fod yn ymwybodol o'r ffaith honno.<br>• Bod diogelu yn fusnes i bawb, i bob gwasanaeth a phob gweithiwr, yn ogystal â phob sefydliad.<br>• Y byddai adroddiad blynyddol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cael ei atodi i'r adroddiad blynyddol mewnol a'i anfon i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ac wedyn i'r Cabinet.<br>• O ran gweithredu'r broses hunanwerthuso, bydd yn cael ei dreialu yn Ch4 ac wedyn yn cael ei weithredu'n llawn o'r flwyddyn ariannol newydd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**263. Cynrychiolaeth Ar Gyd-Bwyllgor Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru A Maethu Cymru**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Penododd y Cabinet Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd fel y cynrychiolydd i eistedd ar Gydbwyllgor Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**264. Hunanasesiad Corfforaethol 2022/23**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad hunanasesu corfforaethol 2022-23 yn Atodiad 1, i’w gyflwyno i’r Cyngor i’w gymeradwyo ar 22 Tachwedd 2022. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**265. Rhaglenni Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet, y Cyngor A Phwyllgorau Trosolwg A Chraffu**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet am y cyfnod o 1 Tachwedd 2023 i 29 Chwefror 2024 |

| | |
|---|---|
| | yn Atodiad 1.<br>• Yn nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am yr un cyfnod fel y dangosir yn atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad yn y drefn honno. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**266. Materion Brys**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**267. Gwahardd y Cyhoedd**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | O dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod tra’n ystyried yr eitem ganlynol o fusnes gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â’r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, i ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda’r cyhoedd wedi eu gwahardd o’r cyfarfod, gan yr ystyrid ym mhob amgylchiad yn ymwneud â’r eitem, bod budd y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**268. Ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfyniad Eithriedig |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Tachwedd 2023 |

**CABINET - DYDD MAWRTH, 21 TACHWEDD 2023**

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 5:30pm